

Menter Twyll Genedlaethol 2020-21: Rhaglen Waith a Manylebau Data Terfynol

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1892A2020-21

Cynnwys

Rhaglen Waith a Manylebau Data Terfynol Menter Twyll Genedlaethol 2020-21	3
Cyflwyniad	3
Rhaglen Waith	3
Manylebau Data	5
Amserlen	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Manylebau Data	9

Rhaglen Waith a Manylebau Data Terfynol Menter Twyll Genedlaethol 2020-21

Cyflwyniad

- 1 Ym mis Mehefin 2020, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol ymgynghoriad ar ei raglen waith a manylebau data drafft ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21. Derbyniwyd tri ar ddeg o ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi'r cynigion. Yn benodol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi amlygu croeso eang i'r cynnig y dylai awdurdodau lleol gyflwyno data ar grantiau a thaliadau COVID-19 er mwyn targedu'r peryglon twyll cysylltiedig.
- 2 Mae'r rhaglen waith a manylebau data drafft wedi'u diwygio mewn ymateb i'r ymgynghoriad fel y'i nodir isod:

Rhaglen Waith

- 3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cwblhau ei raglen waith ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 ac wedi penderfynu'r canlynol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru:
 - dylid eu gorfodi i ddarparu data ar grantiau a thaliadau COVID-19 yn unol â'r fanyleb data sydd wedi'i chynnwys yn **Atodiad 1**.
 - dileu'r angen iddynt ddarparu data ar drwyddedau alcohol personol a thrwyddedau masnachwyr marchnad ar gyfer ymarferiad Menter Twyll Genedlaethol 2020-21. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno'r data hwn yn wirfoddol os ydynt yn dymuno.
 - dileu'r angen iddynt ddarparu taliadau gofal cymdeithasol.
- 4 Dangosir y rhaglen waith derfynol yn **Arddangosyn 1**.

Rhaglen Waith Menter Twyll Cenedlaethol 2020-21

Math o sefydliad	Set Ddata Orfodol
Awdurdod lleol unedol	• Cyflogres • Pensiynau • Hanes taliadau credydwy'r masnach a data sefydlog credydwy'r masnach • Budd-daliadau tai (darparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau) • Tai – tenantiaid, rhestr aros, Hawl i Brynu • Y Dreth Gyngor (cyflwyno bob blwyddyn) • Cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor • Cofrestr etholiadol (cyflwyno bob blwyddyn) • Myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer benthyciad (i'w ddarparu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr) • Preswylwyr cartrefi gofal â chymorth preifat (dyddiad casglu i'w gadarnhau)¹ • Trafnidiaeth: trwyddedau parcio i breswylwyr a bathodynau glas (data ar fathodynau glas i'w ddarparu gan y Gwasanaeth Digidol Bathodynau Glas) a chardiau a thrwyddedau teithio rhatach • Trwyddedau – gyrrwr tacsï (gellir cyflwyno data masnachwr-gweithredwr marchnad a thrwydded alcohol bersonol yn wirfoddol) • Cyllidebau personol (dyddiad casglu i'w gadarnhau) • COVID-19 – data ar grantiau a thaliadau (mae manylebau data drafft wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Gall y manylebau data hyn newid yn dilyn canlyniadau'r cynllun peilot. Bydd awdurdodau lleol yn cael gwybod am unrhyw newidiadau cyn gynted ag y bo modd
Llywodraeth Cymru (cyfranogiad gwirfoddol)	• Cyflogres • Hanes taliadau a data sefydlog credydwy'r masnach • Cardiau teithio rhatach (Cymru gyfan)

¹ Mae'r broses o gasglu data ar gartrefi gofal preswyl a chyllidebau personol wedi'i hatal am y tro er mwyn cadarnhau a yw'r diffiniad o 'ddata cleifion' yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn berthnasol i'r data hwn. Felly, rydym yn gohirio'r gwaith o gasglu'r data.

Rhaglen Waith Menter Twyll Genedlaethol 2020-21

Math o sefydliad	Set Ddata Orfodol
Corff yr heddlu Awdurdod tân ac achub	• Cyflogres • Pensiynau • Hanes taliadau a data sefydlog credydwy'r masnach
Corff y GIG	• Cyflogres • Pensiynau • Hanes taliadau a data sefydlog credydwy'r masnach
Cyfranogwyr gwirfoddol gan gynnwys: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru Prifysgolion Cymru Archwilio Cymru	Gallant gyflwyno: • Cyflogres • Hanes taliadau a data sefydlog credydwy'r masnach • Pensiynau

Manylebau data

5 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cadarnhau'r manylebau data ar gyfer ymarferiad Menter Twyll Genedlaethol 2020-21, ac eithrio'r manylebau data ar gyfer grantiau a thaliadau COVID-19. Mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud i'r manylebau data drafft a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori:

- mae meysydd ychwanegol wedi'u cynnwys yn y fanyleb data cyflogres ar gyfer dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol gweithwyr cyflogedig. Cafodd y meysydd hyn eu hepgor yn ddamweiniol o'r fanyleb data ddrafft.
- mae maes ychwanegol wedi'i gynnwys ym manyleb data'r drwydded teithio rhatach ar gyfer dyddiad diweddaraf defnyddio'r drwydded. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu data trwydded teithio rhatach ar ran holl awdurdodau unedol Cymru.
- mae dwy fanyleb data ddrafft wedi'u hychwanegu er mwyn hwyluso'r broses o baru data grantiau cymorth busnes COVID-19. Y manylebau hyn yw i) data derbynwyr grantiau COVID-19 a ii) data ardrethi busnes. Gall y manylebau data hyn newid yn dilyn canlyniadau'r cynllun peilot. Hysbysir awdurdodau lleol am unrhyw newidiadau cyn gynted ag y bo modd.
- erbyn hyn, nid yw'n orfodol i awdurdodau lleol ddarparu data ar drwyddedau alcohol personol a masnachwyr marchnad i'r Fenter Twyll Genedlaethol. Gall awdurdodau lleol barhau i ddarparu'r setiau data hyn yn wirfoddol.

6 Mae'r manylebau data terfynol wedi'u cyflwyno yn **Atodiad 1**.

Amserlen

7 Mae'r amserlen derfynol ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 wedi'i dangos yn **Arddangosyn 2**.

Amserlen ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21		
Gweithgaredd	Pwy	Pryd
Cyhoeddi rhaglen waith a manylebau data terfynol Menter Twyll Genedlaethol 2020-21.	Tîm Menter Twyll Genedlaethol	Erbyn dydd Mawrth 4 Awst 2020
Anfonir e-bost yn cynnwys dolen i gyfarwyddiadau Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 ar dudalen we NFI GOV.UK at Uwch Swyddogion Cyfrifol ac Unigolion Cyswllt Allweddol.	Tîm Menter Twyll Genedlaethol	Erbyn dydd Gwener 7 Awst 2020
Sicrhau bod ymarferiad cenedlaethol 2020-21 yn rhan o gymwysiadau'r we.	Tîm Menter Twyll Genedlaethol	Erbyn dydd Gwener 7 Awst 2020
Bydd Unigolion Cyswllt Allweddol yn mewngofnodi i Lanlwythiad Ffeil Data cymwysiadau'r we 2020-21 ac yn cadarnhau bod y rhestr o setiau data disgwyledig yn gywir, gan roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r rhestr erbyn dydd Llun 31 Awst 2020.	Unigolyn Cyswllt Allweddol Menter Twyll Genedlaethol	Dydd Gwener 7 Awst 2020 i ddydd Llun 31 Awst 2020
Bydd pob un o'r cyfranogwyr yn cael gwybod am feini prawf ansawdd data ar gyfer pob set ddata.	Tîm Menter Twyll Genedlaethol	Erbyn dydd Llun 31 Awst 2020

Amserlen ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21

Gweithgaredd	Pwy	Pryd
Dylai Unigolion Cyswllt Allweddol sicrhau bod gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am lanlwytho data gyfrif defnyddiwr ar gyfer cymhwysiad y we.	Unigolyn Cyswllt Allweddol Menter Twyll Genedlaethol	Erbyn dydd Gwener 11 Medi 2020, a phryd bynnag y mae newidiadau'n digwydd yn y dyfodol
Unigolion Cyswllt Allweddol i sicrhau bod y datganiad cydymffurfio â'r hysbysiad preifatrwydd wedi'i gwblhau.	Unigolyn Cyswllt Allweddol Menter Twyll Genedlaethol	Erbyn dydd Gwener 25 Medi 2020
Dylai Unigolion Cyswllt Allweddol sicrhau bod data'n cael ei echdynnu o systemau erbyn 30 Medi 2020 (oni nodir yn wahanol yn y fanyleb data) a'i fod yn cael ei lanlwytho i gymhwysiad y we Menter Twyll Genedlaethol 2020-21ar ôl cwblhau'r gwiriadau ansawdd.	Unigolyn Cyswllt Allweddol Menter Twyll Genedlaethol /Defnyddiwr (lanlwytho data)	Rhaid lanlwytho data rhwng dydd Gwener 9 Hydref 2020* a dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020
Dyddiad cau ar gyfer prif ddatganiad Menter Twyll Genedlaethol 2020-21. Os nad yw'r data wedi cyrraedd erbyn diwedd dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020, gellir nodi ei fod yn hwyr, gan olygu nad yw cyfranogwyr Menter Twyll Genedlaethol gorfodol yn cyflawni eu dyletswydd statudol yn llawn.**	Unigolyn Cyswllt Allweddol Menter Twyll Genedlaethol /Uwch Swyddog Cyfrifol	Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020 am 5pm***
Sefydlu/adolygu cyfrifon ar gyfer y rhai sy'n adolygu parau. Dylai Unigolion Cyswllt Allweddol sicrhau bod cyfrifon defnyddwyr yn cael eu sefydlu ar gymhwysiad y we ar gyfer pobl yn eu sefydliad sy'n gyfrifol am adolygu parau.	Unigolyn Cyswllt Allweddol Menter Twyll Genedlaethol	Erbyn 28 Ionawr 2021 a phryd bynnag y mae newidiadau'n digwydd yn y dyfodol

Amserlen ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21

Gweithgaredd	Pwy	Pryd
Mae parau ymarferiad 2020-21 ar gael. Anfonir e-bost at Uwch Swyddogion Cyfrifol ac Unigolion Cyswilt Allweddol yn eu hysbysu bod y parau ar gael.	Tîm Menter Twyll Genedlaethol	O ddydd Iau 28 Ionawr 2021 ****

* Cyhoeddir cyfres o nodiadau atgoffa o ddydd Mercher 14 Hydref 2020. Anfonir nodiadau atgoffa at Uwch Swyddogion Cyfrifol os yw data'n fwy na phythefnos yn hwyr (23 Hydref 2020).

** O dan Ran 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

*** Os ydych yn methu cyflwyno'ch holl ddata gofynnol yn brydlon ac o ansawdd derbyniol (meini prawf i'w cadarnhau erbyn 31 Awst 2020) erbyn dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020, mae'n bosibl y bydd rhai setiau data'n cael eu hepgor o'r broses baru er mwyn rhyddhau'r canlyniadau ar ddiwedd Ionawr 2021. Dylai data gael ei gyflwyno o hyd ar gyfer rhyddhau canlyniadau paru maes o law.

**** Mae'n bosibl y bydd canlyniadau paru dilynol yn cael eu rhyddhau os nad yw data wedi'i ddarparu erbyn y dyddiad cau gofynnol.

Atodiad 1

Manylebau Data

Newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer ymarferiad 2020 i 2021

Data grantiau a thaliadau COVID-19	Gofynion data newydd yn 2020-21. Manylebau data ar gyfer i) data derbynwyr grantiau COVID-19 a ii) data ardrethi busnes.
Tenantiaid Tai (gan gynnwys yr Hawl i Brynu)	Dim newid.
Rhestrau Aros am Dai	Dim newid.
Trwyddedau	Ni fydd data Masnachwyr Marchnad a Thrwyddedau Personol yn orfodol ar gyfer 2020-21. Fodd bynnag, gellir eu darparu'n wirfoddol neu eu paru trwy ReCheck ac AppCheck. Nid oes unrhyw newid ar gyfer data Gyrwyr Tacsis.
Cyflogres	Dim newid.
Pensiynau	Wedi ychwanegu maes ar gyfer gostyngiad pensiwn hysbys.
Cartrefi Gofal â Chymorth Preifat	Wedi ychwanegu hysbysiad na fydd data Cartrefi Gofal â Chymorth Preifat yn cael ei gasglu fel rhan o brif ymarferiad 2020-21. Defnyddir amserlen wahanol i gasglu'r data hwn, a hysbysir cyfranogwyr am yr amserlen maes o law.
Cardiau a Thrwyddedau Trafnidiaeth	Cardiau teithio rhatach: Mae maes newydd wedi'i ychwanegu i nodi data dyddiad diweddaraf defnyddio'r cerdyn. Dim newid i'r Bathodyn Glas na'r Drwydded Barcio.
Hanes Credydwy'r Masnach	Wedi ychwanegu maes ar gyfer Rhif Cofrestru Cwmni.

Data Sefydlog Credydwy'r Masnach	Wedi ychwanegu maes ar gyfer Rhif Cofrestru Cwmni.
Cyllidebau Personol a Gofal Cymdeithasol	Wedi dileu Gofal Cymdeithasol Wedi ychwanegu hysbysiad na fydd data Cyllidebau Personol yn cael ei gasglu fel rhan o ymarferiad 2020-21. Defnyddir amserlen wahanol i gasglu'r data hwn, a hysbysir cyfranogwyr am yr amserlen maes o law.
Y Dreth Gyngor	Dim newid.
Cofrestr Etholiadol	Dim newid..
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Dim newid

Data Sefydlog Credydwyr Masnach

Gofynion

- Dylai'r data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon hy cynnwys pob enw maes.
- Dim ond drwy'r cyfleuster Data File Upload (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os defnyddir dull cyflwyno arall, ein polisi yw rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Cyfri-fol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi cael ei roi mewn perygl yn ddiangen.
- Dylai data sefydlog fod yn gyfredol ar y dyddiad codi, ac ni ddylai gynnwys credydwyr segur neu wedi'u hatal.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod credydwr	Nod	Dyma'r dynodwr unigryw ar gyfer credydwr unigol. Gall hwn fod ar ffurf llinyn rhifol neu alffarifol.
Rhif Adnabod Safle	Nod	Os oes gan Gredydwyr fwy nag un cyfeiriad, dylai fod cofnod gwahanol ar gyfer pob un, ond gellir eu nodi ar wahân drwy'r Rhif Adnabod Safle hwn. Os darperir Rhif Adnabod Safle yn y ffeil data sefydlog hon, dylid ei gynnwys hefyd yn y ffeil hanes taliadau fel bod maes cysylltu unigryw rhwng y ddwy set ddata. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl (a) sefydlu taliadau cronnus i safleoedd credydwyr masnach unigol a (b) atodi enwau credydwyr masnach i bob trafodyn yn y ffeil hanes taliadau.
Enw'r credydwr	Nod	
Rhif Cofrestru'r Cwmni (CRN)	Nod	Bydd hwn naill ai'n 8 nod rhifol neu'n 2 lythyren a 6 chymeriad rhifol. Gadewch y maes yn wag os nad y dych yn cofnodi hyn.
Cyfeiriad 1	Nod	Os yw'r cyfeiriad yn cael ei nodi mewn un maes, defnyddiwch y maes Cyfeiriad 1.
Cyfeiriad 2	Nod	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai'r maes hwn wella'n sylweddol y maes paru cyfeiriad.
Rhif ffôn	Nod	Gall hwn gynnwys y cod ardal/STD. Dylai gael ei allbynnu fel maes mod fel na fydd y seros blaen yn cael eu colli.
Cod didoli banc	Nod	6 chymeriad rhifol mewn grwpiau o 2 y gellir eu gwahanu gan gysylltnodau e.e. 20-45-23.
Rhif cyfrif banc	Nod	8 nod rhifol fel arfer.
Cyfeirnod y Gymdeithas Adeiladu	Nod	Mae gan gymdeithasau adeiladu gyfeirnod sy'n dynodi'r cyfrif unigol lle caiff taliadau eu dosbarthu ar ôl cael eu talu i mewn i gyfrif daliad sengl. Dylai hwn fod yn wag ar gyfer cyfrifon banc arferol.
Math o gredydwr	Nod	Dim ond os nad oes modd i chi ddarparu data credydwr masnach yn unig y mae angen poblogi'r maes hwn hy mae'r cyflwyniad yn cynnwys mathau eraill o gredydwr. Er enghraifft, '0 = credydwr masnach, 1 = budd-daliadau, 2 = cyflogres, 3 = ffactor, 4 = grantiau, 5 = dros dro-untro, ac ati. Yna rhwch allwedd i'r codau a ddefnyddir. Os nad yw'r math hwn o ddynodwr ar gael yn y system, byddai o fantais i chi boblogi'r maes hwn i'ch galluogi i hidlo'r allbwn yn haws a chanolbwyntio adnoddau ar yr hyn y credwch yw'r parau mwyaf gwerth chweil.

Hanes Credydwyr Masnach

Gofynion

- Dylai'r data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon hy cynnwys pob enw maes.
- Dim ond drwy'r cyfleuster Data File Upload (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os defnyddir dull cyflwyno arall, ein polisi yw rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi cael ei roi mewn perygl yn ddiangen.
- Dylai data Hanes Credydwyr Masnach gwmpasu o leiaf y tair blynedd diwethaf, sef 1 Hydref 2017 i 30 Medi 2020 lle bynnag y bo'n bosibl.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod credydwr	Nod	Dyma'r dynodwr unigryw ar gyfer credydwr unigol. Gall hwn fod ar ffurf llinyn rhifol neu alffarifol.
Rhif Adnabod Safle	Nod	Os oes gan Credydwyr fwy nag un cyfeiriad, dylai fod cofnod gwahanol ar gyfer pob un, ond gellir eu nodi ar wahân drwy'r Rhif Adnabod Safle hwn. Os darperir Rhif Adnabod Safle yn y ffeil data hanes taliadau, dylid ei gynnwys hefyd yn y ffeil data sefydlog fel bod maes cysylltu unigryw rhwng y ddwy set ddata. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl (a) sefydlu taliadau cronnus i safleoedd credydwyr masnach unigol a (b) atodi enwau credydwyr masnach i bob trafodyn yn y ffeil hanes taliadau.
Rhif Cofrestru'r Cwmni (CRN)	Nod	Bydd hwn naill ai'n 8 nod rhifol neu'n 2 lythyren a 6 chymeriad rhifol. Gadewch y maes yn wag os nad ydych yn cofnodi hyn.
Rhif anfoneb y cyflenwr	Nod	Dyma'r cyfeirnod a ddangosir ar anfoneb y cyflenwr – rhif fel arfer, ond gall fod rhagddodiaid neu ôl-ddodiaid alffa.
Rhif anfoneb mewnol/y system	Nod	Mae'r rhan fwyaf o systemau yn cynhyrchu rhif trafodyn dilyniantol unigryw fel y gellir adnabod pob anfoneb, nodyn credyd, taliad ac ati ar wahân.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Dyddiad yr anfoneb	Dyddiad	Dyma'r dyddiad ar yr anfoneb, ond gallai fod yn ddyddiad mewnbynnu os nad yw dyddiad yr anfoneb ar gael.
Dyddiad talu	Dyddiad	Os nad yw'r anfoneb wedi'i thalu, gadewch yn wag. Yn yr achosion hynny, os yw eich system yn dangos dyddiad rhagosodedig yn y maes hwn ac na allwch ei adael yn wag, rhowch wybod i ni beth yw'r dyddiad rhagosodedig.
Cyfanswm yr anfoneb	Rhifol	Mae 'cyfanswm yr anfoneb' yn cynnwys TAW, namyn unrhyw ostyngiad. Fodd bynnag, mae rhai systemau yn nodi symiau nad ydynt yn cynnwys TAW, gyda'r ffigur TAW yn cael ei gadw ar wahân. Yn yr achos hwn, dylid adio'r ffigurau hyn at ei gilydd i gynhyrchu 'cyfanswm yr anfoneb'.
Swm TAW	Rhifol	Dylid nodi hyn ar wahân ar gyfer pob anfoneb, ond gallai fod yn ddim os na chodir TAW neu os yw wedi'i heithrio neu y tu allan i gwmpas TAW.
Dull talu	Nod	Er enghraifft, BACS, siec, arian parod, gorchymyn talu ac ati. Os defnyddir codau, dylid anfon 'allwedd' i'r codau gyda'r cyflwyniad data.
Cyfeirnod y taliad	Nod	Dylai'r maes hwn gynnwys cyfeirnod y siec, y gorchymyn talu (PO) neu'r rhif BACS a ddefnyddiwyd i dalu'r anfoneb. Mae hyn yn golygu y byddai gan anfonebau a dalwyd gyda'i gilydd yr un rhif siec/PO/BACS.
Sylwadau	Nod	Gellir defnyddio'r maes hwn fel maes testun rhydd i gynnwys gwybodaeth a allai fod o gymorth i chi wrth ymchwilio i barau.

Cyllidebau Personol

Mae Cyllidebau Personol (PB) yn bâr gorfodol i gyrff cymwys. Mae cyllideb personol yn ddyraniad uniongyrchol gan gyngor o gyllid i unigolyn ei wario ar gynllun cymorth i fodloni cyfres gytunedig o anghenion gofal cymdeithasol.

Noder na fydd data Cyllidebau Personol yn cael ei gasglu fel rhan o ymarferiad 2020-21. Defnyddir amserlen wahanol i gasglu'r data hwn, a hysbysir cyfranogwyr am yr amserlen maes o law.

Gofynion

- Yn unol ag arfer da wrth ymdrin â data personol, mae'n ofynnol i chi ddefnyddio cyfrinair i ddiogelu pob set ddata unwaith iddynt gael eu codi o'r systemau perthnasol. Os oes angen, cyfeiriwch at ein canllawiau sy'n dangos sut i ddefnyddio cyfrinair i ddiogelu data (dogfen PDF).
- Dylai'r data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon hy cynnwys pob enw maes.
- Dim ond drwy'r cyfleuster Data File Upload (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os defnyddir dull cyflwyno arall, ein polisi yw rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi cael ei roi mewn perygl yn ddiangen.
- Ar gyfer cyllidebau personol a thaliadau gofal cymdeithasol, dylai'r data fod yn ymwneud â derbynwyr sydd dros 18 oed.
- Caiff taliadau gofal cymdeithasol eu diffinio fel taliadau a wneir gan awdurdodau lleol ar gyfer gofal cymdeithasol (ac eithrio cyllidebau personol a delir fel taliadau uniongyrchol, neu gostau cartrefi gofal preswyl preifat gan fod y rhain eisoes wedi'u paru fel rhan o'r Fenter). Gall taliadau gofal cymdeithasol gynnwys, er enghraifft, daliadau am brydau bwyd, gofalwyr, cludiant, addasiadau i'r cartref, costau am gartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chyfarpar sy'n helpu gyda thasgau bywyd bob dydd.
- Cynnwys derbynwyr presennol cyllidebau personol neu daliadau gofal cymdeithasol yn unig.
- Sicrhau mai dim ond un cofnod sydd ar gyfer pob derbynnydd. Os yw derbynnydd yn derbyn mwy nag un math o daliad gofal cymdeithasol, dim ond un cofnod ddylai fod ganddo yn y data i'w lanlwytho ar gyfer paru. Bydd angen i chi ddileu cofnodion dyblyg.

Cyllidebau Personol (taliadau uniongyrchol)

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Teitl	Nod	
Enw cyntaf	Nod	
Enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol	Nod	
Cyfenw	Nod	
Rhif Yswiriant Gwladol	Nod	Mae'n bwysig darparu'r maes hwn lle mae ar gael er mwyn gwella ansawdd y paru data.
Llinell cyfeiriad 1	Nod	
Llinell cyfeiriad 2	Nod	
Llinell cyfeiriad 3	Nod	
Llinell cyfeiriad 4	Nod	
Cod post	Nod	
Dyddiad geni	Dyddiad	
Dyddiad Cychwyn Talu (dyddiad derbyn)	Dyddiad	Y dyddiad y cychwynnodd y taliadau.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod yr Hawliad-Achos	Nod	Dylai hwn fod y cyfeirnod mewnol unigryw.
Swm Blynnyddol a Delir	Rhifol	Dylai hwn fod y swm blynnyddol a delir. Dylid cyflenwi symiau ariannol heb arwydd £ ac ar ffurf punnoedd a cheiniogau hy 12345.67. Noder: rhaid darparu symiau ariannol yn yr un fformat gydol y ffeil. Mae'r cofnodion a roddir fel ceiniogau yn unig (hy 123456) yn cael eu cyfieithu fel £123456.00. Os na ellir cyflenwi gwerthoedd ariannol, dylid gadael y maes yn wag. Peidiwch â rhoi sero.
Y dyddiad y gwnaed y taliad uniongyrchol cyllideb bersonol diwethaf	Dyddiad	
Baner Budd-dal Tai	Nod	Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn i ddangos bod derbynnydd cyllideb bersonol yn derbyn budd-dal tai. Gadewch yn wag fel arall.
Baner Incwm Pensiynau	Nod	Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn i ddangos bod derbynnydd cyllideb bersonol yn derbyn incwm pensiynau. Gadewch yn wag fel arall.
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	
Rhywedd	Nod	Rhaid i hwn fod yn 'M' ar gyfer Gwryw, 'F' ar gyfer Benyw neu'n wag.

Pensiynau

Gofynion

- Dylai'r data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon hy cynnwys pob enw maes.
- Dim ond drwy'r cyfleuster Data File Upload (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os defnyddir dull cyflwyno arall, ein polisi yw rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi cael ei roi mewn perygl yn ddiangen.
- Pan fo data yn cael ei gyflwyno ar gyfer gweddwon pensiwn, dylech sicrhau mai enw, dyddiad geni a Rhif Yswiriant Gwladol y weddw sy'n cael eu cyflwyno yn hytrach na manylion y pensiynwr gwreiddiol.
- Er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir gan ddefnyddio'r cyfleuster DFU mor syml â phosibl, dylid lanlwytho'r data mewn tair ffeil ar wahân:
 - Pensiynwyr presennol hy y rhai sy'n derbyn pensiwn ar hyn o bryd;
 - Os yw'n berthnasol - Pensiynwyr sy'n derbyn taliad pensiwn ar hyn o bryd; a
 - Dewisol - Pensiynwyr gohiriedig nad ydynt yn cael eu talu ar hyn o bryd. Noder y dylai unrhyw bensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd gael eu cynnwys yn eich 'Pensiynwyr presennol'

Pensiynwyr Presennol (y rhai sy'n derbyn pensiwn ar hyn o bryd)

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y gweithiwr cyflogedig	Nod	Cyfeirnod y gweithiwr cyflogedig
Rhif swydd y gweithiwr cyflogedig	Nod	Rhif swydd y gweithiwr cyflogedig
Teitl	Nod	Teitl
Rhywedd	Nod	Rhywedd
Cyfenw	Nod	Cyfenw

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Enw(au) cyntaf	Nod	Enw(au) cyntaf
Enw(au) canol neu lythyren/lythrenna u cyntaf enw(au) canol	Nod	Gofalwch eich bod yn cipio unrhyw enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf unrhyw enw(au) canol. Gallwch ddarparu hwn mewn maes enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol, neu yn y maes enw(au) cyntaf os yw'n well gennych.
Llinell cyfeiriad 1	Nod	
Llinell cyfeiriad 2	Nod	
Llinell cyfeiriad 3	Nod	
Llinell cyfeiriad 4	Nod	
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	
Dyddiad geni	Dyddiad	
Dyddiad cychwyn y pensiwn	Dyddiad	
Y dyddiad y daeth y gyflogaeth i ben	Dyddiad	Cynnwys fel gwiriad annibynnol mai dim ond pensiynwyr sy'n cael eu cynnwys
Dangosydd ymadael	Nod	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Dangosydd pensiynwyr sy'n weddwon	Nod	Rhowch 'W' ar gyfer pensiynwyr sy'n weddwon a gofalwch mai enw, dyddiad geni a rhif YG y person gweddw sy'n cael eu cyflwyno yn hytrach na manylion y pensiynwr gwreiddiol.
Rhif yswiriant gwladol	Nod	
Pensiwn gros hyd yma	Rhifol	Dylai hwn fod yn bensiwn gros hyd yma NID pensiwn trethadwy hyd yma. Peidiwch â chyflwyno cofnod os yw'r maes hwn yn sero.
Dyddiad talu diwethaf	Dyddiad	
Baner pensiwn anaf	Nod	Pensiynau'r Heddlu a Tân yn unig. Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn os yw'r pensiynwr yn derbyn pensiwn uwch oherwydd anafiadau a gafwyd yn y gwaith.
Baner ymddeol oherwydd salwch	Nod	Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn os yw'r pensiynwr wedi ymddeol oherwydd salwch. Bydd hyn yn helpu gyda pharau lleihau pensiwn.
Baner lleihau pensiwn	Nod	Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn os yw'r pensiwn yn cael ei leihau oherwydd rheolau atal.

Pensiynwyr sy'n derbyn taliad pensiwn ar hyn o bryd (os yn berthnasol)

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y gweithiwr cyflogedig	Nod	
Rhif swydd y gweithiwr cyflogedig	Nod	Gadewch yn wag os nad yw'n berthnasol, ond peidiwch â hepgor y maes hwn
Teitl	Nod	
Rhywedd	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol	Nod	Gofalwch eich bod yn cipio unrhyw enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf unrhyw enw(au) canol. Gallwch ddarparu hwn mewn maes enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol, neu yn y maes enw(au) cyntaf os yw'n well gennych.
Llinell cyfeiriad 1	Nod	
Llinell cyfeiriad 2	Nod	
Llinell cyfeiriad 3	Nod	
Llinell cyfeiriad 4	Nod	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	
Dyddiad geni	Dyddiad	
Dyddiad cychwyn y pensiwn	Dyddiad	
Y dyddiad y daeth y gyflogaeth i ben	Dyddiad	Cynnwys fel gwiriad annibynnol mai dim ond pensiynwyr sy'n cael eu cynnwys
Dangosydd ymadael	Nod	
Dangosydd pensiynwyr sy'n weddwon	Nod	Rhowch 'W' ar gyfer pensiynwyr sy'n weddwon a gofalwch mai enw, dyddiad geni a rhif YG y person gweddw sy'n cael eu cyflwyno yn hytrach na manylion y pensiynwr gwreiddiol.
Rhif yswiriant gwladol	Nod	
Pensiwn gros hyd yma	Rhifol	Dylai hwn fod yn bensiwn gros hyd yma NID pensiwn trethadwy hyd yma. Peidiwch â chyflwyno cofnod os yw'r maes hwn yn sero.
Dyddiad talu diwethaf	Dyddiad	

Pensiynwyr gohiriedig nad ydynt yn cael eu talu ar hyn o bryd (dewisol)

Noder y dylai unrhyw bensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd gael eu cynnwys yn eich ffeil 'Pensiynwyr Presennol'.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y gweithiwr cyflogedig	Nod	
Rhif swydd y gweithiwr cyflogedig	Nod	Gadewch yn wag os nad yw'n berthnasol, ond peidiwch â hepgor y maes hwn.
Teitl	Nod	
Rhywedd	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol	Nod	Gofalwch eich bod yn cipio unrhyw enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf unrhyw enw(au) canol. Gallwch ddarparu hwn mewn maes enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol, neu yn y maes enw(au) cyntaf os yw'n well gennych.
Llinell cyfeiriad 1	Nod	
Llinell cyfeiriad 2	Nod	
Llinell cyfeiriad 3	Nod	
Llinell cyfeiriad 4	Nod	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	
Dyddiad geni	Dyddiad	
Dyddiad cychwyn y pensiwn	Dyddiad	
Y dyddiad y daeth y gyflogaeth i ben	Dyddiad	Cynnwys fel gwiriad annibynnol mai dim ond pensiynwyr sy'n cael eu cynnwys.
Dangosydd ymadael	Nod	
Rhif yswiriant gwladol	Nod	

Cyflogres

Gofynion

- Dylai'r data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon hy cynnwys pob enw maes.
- Dim ond drwy'r cyfleuster Data File Upload (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbynol o gyflenwi data. Os defnyddir dull cyflwyno arall, ein polisi yw rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi cael ei roi mewn perygl yn ddiangen.
- Dylid darparu pob cyflogres (er enghraifft, yn fisol, yn wythnosol ac yn chwarterol, aelodau/cynghorwyr, ysgolion ac athrawon). Fodd bynnag, ni ddylid darparu data mewn perthynas â chyflogresi a brosesir ar gyfer sefydliadau eraill ar sail asiantaeth oni bai:
 - bod hyn wedi'i awdurdodi gan y sefydliad; a
 - bod y sefydliad wedi cadarnhau bod Hysbysiad Preifatrwydd wedi'i gyhoeddi.
- Sicrhau bod un ffeil ar gyfer pob sefydliad yn cael ei lanlwytho hy peidiwch â chyflwyno un ffeil sy'n uno gweithwyr cyflogedig yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Cyngor Sir.
- Sicrhau mai dim ond un cofnod sydd ar gyfer pob gweithiwr cyflogedig hy dylid cyfuno manylion am weithwyr cyflogedig unigol sydd â mwy nag un swydd mewn un cofnod. Er enghraifft, ar gyfer gweithwyr cyflogedig sydd â sawl swydd, dylid ychwanegu 'Cyflog gros hyd yma' ac 'Oriau safonol yr wythnos' ar gyfer pob swydd i roi cyfansymiau cyfun ar gyfer y ddau faes hynny. Dylid darparu meysydd eraill megis 'Dyddiad cychwyn', 'Cod didoli' a 'Cyfrif banc' o'r brif swydd (enillion uchaf).
- Dylech gynnwys gweithwyr cyflogedig presennol yn unig.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y gweithiwr cyflogedig	Nod	
Rhif swydd y gweithiwr cyflogedig	Nod	Gadewch yn wag os nad yw'n berthnasol, ond peidiwch â hepgor y maes hwn.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Adran	Nod	Darparwch yr adran lle mae'r gweithiwr cyflogedig yn gweithio, er enghraifft, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg. Os yw'r maes hwn yn cynnwys cod, darparwch dabl chwilio.
Teitl	Nod	
Rhywedd	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol	Nod	Gofalwch eich bod yn cipio unrhyw enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf unrhyw enw(au) canol. Gallwch ddarparu hwn mewn maes enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol, neu yn y maes enw(au) cyntaf os yw'n well gennych.
Llinell cyfeiriad 1	Nod	
Llinell cyfeiriad 2	Nod	
Llinell cyfeiriad 3	Nod	
Llinell cyfeiriad 4	Nod	
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai'r maes newydd hwn wella'n sylweddol y broses o baru cyfeiriad.
Dyddiad Geni	Dyddiad	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Rhif ffôn cartref	Nod	Darperir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig, ac ni chânt eu dangos mewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i gyfranogwyr i'w hadolygu.
Rhif ffôn symudol	Nod	
Cyfeiriad e-bost	Nod	
Rhif pasbort	Nod	
Dyddiad cychwyn	Dyddiad	
Dyddiad ymadael	Dyddiad	Cynnwys fel gwriad annibynnol mai dim ond gweithwyr cyflogedig presennol sy'n cael eu cynnwys.
Dangosydd ymadael	Nod	
Rhif Yswiriant Gwladol	Nod	
Baner llawn amser/rhan-amser	Nod	Rhowch 'F' am weithwyr cyflogedig llawn amser (a gyflogir am 30 awr neu fwy yr wythnos), 'P' am weithwyr cyflogedig rhan-amser (llai na 30 awr yr wythnos) neu 'C' am weithwyr cyflogedig achlysurol-yn ôl yr angen.
Cyflog gros hyd yma	Rhifol	Dylai hwn fod yn gyflog gros hyd yma NID tâl trethadwy hyd yma am y flwyddyn ariannol 2018-2019 hyd at y dyddiad codi. Peidiwch â chyflwyno cofnod os yw'r maes hwn yn sero.
Oriau safonol yr wythnos	Rhifol	e.e. 16 awr fel 1600.
Dyddiad talu diwethaf	Dyddiad	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Baner athro	Nod	Rhowch 'T' ar gyfer athro. Gadewch yn wag os nad yw'n berthnasol ond peidiwch â hepgor y maes hwn.
Cod didoli	Nod	6 chymeriad rhifol mewn grwpiau o 2 y gellir eu gwahanu gan gysylltnodau e.e. 20-45-23.
Cyfrif banc	Nod	8 nod rhifol fel arfer.
Cyfeirnod cymdeithas adeiladu	Nod	Mae gan gymdeithasau adeiladu gyfeirnod lle caiff taliadau eu dosbarthu ar ôl cael eu talu i mewn i un cyfrif.

Trwyddedau (gan gynnwys trwyddedau masnachwr marchnad, gyrrwr tacsï a thrwyddedau personol ar gyfer cyflenwi alcohol)

Gofynion

- Dylai'r data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon hy cynnwys pob enw maes.
- Dim ond drwy'r cyfleuster Data File Upload (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os defnyddir dull cyflwyno arall, ein polisi yw rhoi gwybod i'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi cael ei roi mewn perygl yn ddiangen.
- Mae cyflwyno data gyrrwr tacsï yn orfodol ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2020-21. Gellir cyflwyno data masnachwr marchnad a thrwyddedau alcohol personol ar gyfer prif ymarferiad y Fenter Twyll Genedlaethol yn wirfoddol neu ei baru trwy AppCheck neu ReCheck y Fenter Twyll Genedlaethol.
- Er mwyn sicrhau bod y gwaith o gyflwyno data gan ddefnyddio'r DFU mor syml â phosibl, dylid lanlwytho data mewn tair ffeil ar wahân:
 - deiliaid presennol trwydded masnachwr marchnad neu drwydded debyg;
 - deiliaid presennol trwydded gyrrwr tacsï (cerbydau hurio preifat a cherbydau Hackney); a
 - deiliaid presennol 'trwydded alcohol personol' (PAL) lle mae deiliad y drwydded hefyd yn 'Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig' (DPS).

Deiliaid presennol trwydded masnachwr marchnad neu drwydded debyg (cyflwyno'n wirfoddol)

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod	Nod	Dylai hwn nodi'r unigolyn yn unigryw hy rhif y drwydded
Teitl	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol	Nod	Gofalwch eich bod yn cipio unrhyw enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf unrhyw enw(au) canol. Gallwch ddarparu hwn mewn maes enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol neu yn y maes 'Enw(au) cyntaf' os yw'n well gennych.
Cyfeiriad 1	Nod	Os yw'r cyfeiriad yn cael ei nodi mewn un maes, defnyddiwch y maes Cyfeiriad 1.
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai'r maes hwn wella'n sylweddol y maes paru cyfeiriad
Dyddiad geni	Dyddiad	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Rhif ffôn cartref	Nod	Cesglir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig ac ni chânt eu dangos mewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i'r cyfranogwyr i'w hadolygu.
Rhif ffôn symudol	Nod	
Cyfeiriad e-bost	Nod	
Rhif yswiriant gwladol	Nod	Lle caiff rhifau YG eu casglu a'u cadw o fewn y data, dylid eu cynnwys yn y data a gyflwynir i'r Fenter.
Dyddiad cychwyn y drwydded	Dyddiad	
Dyddiad dod i ben y drwydded	Dyddiad	
Baner y math o system	Nod	Rhowch 'M' yn y maes hwn i ddangos bod y data yn ymwneud â masnachwr/gweithredwr marchnad.

Deiliaid Presennol trwydded Gyrrwr Tacsî, Cerbydau Llogi Preifat neu Gerbydau Hackney (set ddata orfodol)

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod	Nod	Dylai hwn nodi'r unigolyn yn unigryw hy rhif y drwydded
Teitl	Nod	
Cyfenw	Nod	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol	Nod	Gofalwch eich bod yn cipio unrhyw enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf unrhyw enw(au) canol. Gallwch ddarparu hwn mewn maes enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol neu yn y maes 'Enw(au) cyntaf' os yw'n well gennych.
Cyfeiriad 1	Nod	Os yw'r cyfeiriad yn cael ei nodi mewn un maes, defnyddiwch y maes Cyfeiriad 1.
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai'r maes hwn wella'n sylweddol y maes paru cyfeiriad
Dyddiad geni	Dyddiad	
Rhif ffôn cartref	Nod	Cesglir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig ac ni chânt eu dangos mewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i'r cyfranogwyr i'w hadolygu.
Rhif ffôn symudol	Nod	
Cyfeiriad e-bost	Nod	
Rhif yswiriant gwladol	Nod	Lle caiff rhifau YG eu casglu a'u cadw o fewn y data, dylid eu cynnwys yn y data a gyflwynir i'r Fenter.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Dyddiad cychwyn y drwydded	Dyddiad	
Dyddiad dod i ben y drwydded	Dyddiad	
Baner y math o system	Nod	Rhowch 'T' yn y maes hwn i ddangos bod y data yn ymwneud â gyrrwr tacsï.

Deiliaid presennol 'trwydded alcohol bersonol' (PAL) lle mae deiliad y drwydded hefyd yn 'Oruchwyliwr Eiddo Dynodedig' (cyflwyno'n wirfoddol).

Dim ond ar gyfer deiliaid trwyddedau personol sydd wedi'u cofrestru mewn eiddo y dylid cyflwyno data (e.e. Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig) gan fod hwn yn dynodi cyflogaeth ac enillion posibl.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod	Nod	Dylai hwn nodi'r unigolyn yn unigryw hy rhif y drwydded
Teitl	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol	Nod	Gofalwch eich bod yn cipio unrhyw enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf unrhyw enw(au) canol. Gallwch ddarparu hwn mewn maes enw(au) canol neu lythyren/lythrennau cyntaf enw(au) canol neu yn y maes 'Enw(au) cyntaf' os yw'n well gennych.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeiriad 1	Nod	Os yw'r cyfeiriad yn cael ei nodi mewn un maes, defnyddiwch y maes Cyfeiriad 1.
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai'r maes hwn wella'n sylweddol y maes paru cyfeiriad
Dyddiad geni	Dyddiad	
Rhif ffôn cartref	Nod	Cesglir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig ac ni chânt eu dangos mewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i'r cyfranogwyr i'w hadolygu.
Rhif ffôn symudol	Nod	
Cyfeiriad e-bost	Nod	
